# Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth gwella ysgolion yng nghonsortiwm rhanbarthol Canolbarth y De

**Consortiwm Canolbarth y De**
**Tŷ Dysgu**
**Cefn Coed**
**Nantgarw**
**Trefforest**
**CF15 7QQ**

**Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/5/2016**

## Cyd-destun

### Proffil rhanbarthol

Mae Consortiwm Canolbarth y De yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer rhanbarth sy'n cynnwys pum awdurdod lleol, sef: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Roedd 111,121 o ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol yn y rhanbarth yn 2015. Mae hyn gyfwerth â 31% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru. Mae 398 o ysgolion a gynhelir yn y rhanbarth, sef 25% o'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru (CYBLD, 2015).

Yn 2015, mae 20.7% o ddisgyblion yn y rhanbarth yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn uwchlaw cyfartaledd Cymru, a 0.1 pwynt canran yn unig islaw cyfartaledd y rhanbarth sydd â'r gyfran uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yn y rhanbarth, dywed 11% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19% (Cyfrifiad 2011, Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Ar 31 Rhagfyr 2015, mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 7% o'r boblogaeth yn y rhanbarth, ac mae hyn ychydig uwchlaw cyfartaledd Cymru.

Ar 31 Mawrth 2015, mae 2,015 o blant yn y rhanbarth yn cael gofal gan awdurdod lleol, ac mae hyn gyfwerth â 36% o blant sy'n cael gofal yng Nghymru.

### Proffil perfformiad

Bu gwelliant cryf yn y deilliannau ar gyfer disgyblion yn y prif ddangosyddion ar gyfer perfformiad ym mhob un o'r cyfnodau allweddol dros y tair blynedd ddiwethaf ar draws y pum awdurdod lleol a wasanaethir gan Gonsortiwm Canolbarth y De. Fodd bynnag, er Medi 2012, barnwyd bod lleiafrif o ysgolion uwchradd yn unig a arolygwyd yn dda neu'n well o ran eu safonau. Mae hon yn gyfran ychydig yn is o gymharu â gweddill Cymru.

Yn 2015, mae dros hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar gyfer pob un o'r prif ddangosyddion yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Hwn yw'r unig ranbarth lle mae hyn yn wir. At ei gilydd, mae perfformiad yn y rhanbarth hwn wedi gwella'n gyflymach nag yn y rhanbarthau eraill dros y tair blynedd ddiwethaf, er bod hyn o sylfaen isel ar gyfer sawl dangosydd.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, perfformiad yn y dangosydd Cyfnod Sylfaen a dangosydd pwnc craidd cyfnod allweddol 2 sydd wedi cynyddu gyflymaf yng Nghymru. O'u harolygu, barnwyd bod cyfran uwch o ysgolion cynradd yng Nghanolbarth De Cymru yn dda neu'n well am eu safonau o gymharu â'r rheiny yng ngweddill Cymru.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 wedi gwella'n gyflym yng Nghanolbarth De Cymru

dros y tair blynedd ddiwethaf, ac ar gyfradd gyflymach na chyfartaledd Cymru. Yn 2015, roedd perfformiad yn agos at fod yr uchaf yng Nghymru. Mae mwyafrif yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni trothwy lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg wedi gwella'n arbennig o gyflym dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth yn bodloni neu'n rhagori ar y targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae bron i ddwy o bob tair ysgol yn y rhanbarth yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg, a thuag un o bob chwech o ysgolion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella'n gyflymach nag yn y rhanbarthau eraill dros y tair blynedd ddiwethaf, er bod hynny o sylfaen isel iawn. Y bwlch mewn perfformiad rhwng merched a bechgyn yw'r lleiaf ar gyfer unrhyw un o'r pedwar rhanbarth. Fodd bynnag, mae perfformiad bechgyn ar draws yr awdurdodau lleol yn rhy amrywiol o lawer.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach wedi'i chapio wedi gwella'n dda dros y tair blynedd ddiwethaf. Roedd perfformiad mewn pedwar o'r pum awdurdod lleol yn y rhanbarth yn bodloni neu'n rhagori ar y targed meincnod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015. Mae ychydig dros hanner yr ysgolion yn y rhanbarth yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, ac mae un o bob pum ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Er bod perfformiad yn nhrothwy lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella, cafwyd y perfformiad isaf yng Nghymru yn y rhanbarth am y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae hanner yr ysgolion uwchradd yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* neu A mewn TGAU neu gyfwerth wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru am y ddwy flynedd ddiwethaf, gan wella ar gyfradd gyflymach ar draws y pedwar rhanbarth. Fodd bynnag, mae perfformiad ar draws yr awdurdodau lleol yn rhy amrywiol.

Mae perfformiad mewn Saesneg yn hynod gryf yn y rhanbarth. Mae perfformiad ar lefel 2 uwchlaw cyfartaledd Cymru yn 2015 ac mae bron i ddwy o bob tair ysgol uwchradd yn y 50% uwch pan gaiff eu perfformiad ei gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg.

Perfformiad mewn mathemateg yw'r gwannaf o blith y pynciau craidd, er mai Canolbarth De Cymru yw'r rhanbarth sydd wedi gwella fwyaf dros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae presenoldeb wedi gwella'n dda yn y rhanbarth yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynyddu ar gyfradd ychydig yn gyflymach na chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau presenoldeb mewn mwyafrif o ysgolion uwchradd a chynradd yn eu gosod yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gwasanaethau gwella ysgolion yn mynd i'r afael ag amrywioldeb perfformiad ar draws ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella cywirdeb arfarniadau ysgolion gan ymgynghorwyr her er mwyn sicrhau ffocws gwell ar wella addysgu ac arweinyddiaeth

A3 Cryfhau'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu effaith gwaith gwella ysgolion

A4 Arfarnu cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu'r consortiwm rhanbarthol yn fwy effeithiol

## Prif ganfyddiadau

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Digonol**

Mae gan y consortiwm weledigaeth a strategaeth glir i wella ysgolion sy'n cael eu deall gan y rhan fwyaf o randdeiliaid ac yn ategu'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda. Mae bron pob un o'r ysgolion ar draws y rhanbarth yn ymgymryd yn bwrpasol â gweithio rhwng ysgolion.

Mae 'Fframwaith Cymorth a Her' y consortiwm yn darparu arweiniad defnyddiol ar gyfer ymgynghorwyr her, swyddogion awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r fframwaith yn amlinellu'r broses ar gyfer categoreiddio ysgolion yn glir a ffyrdd y dylai ymgynghorwyr weithio gydag ysgolion mewn gwahanol gategorïau cymorth. Yn dilyn arfarniad, mae'r consortiwm wedi adolygu'r fframwaith yn ddiweddar i bwysleisio hunanarfarniad a chynllunio gwelliant ysgolion, a chanolbwyntio'n fwy craff ar y blaenoriaethau gwella ar gyfer y rhanbarth. Yn briodol, mae hyn yn cynnwys gwella cyflawniad grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed.

Mae arweinwyr y consortiwm yn datblygu'r trefniadau ar gyfer casglu data i lywio prosesau gwella ysgolion a gwella eu gwybodaeth am ysgolion yn dda. Mae hyn yn cynnwys casglu data ar berfformiad disgyblion trwy gydol y flwyddyn, sy'n galluogi'r consortiwm i olrhain cynnydd yn fwy cywir yn ei ysgolion. Mae llawer o ymgynghorwyr her yn defnyddio'r data hwn yn briodol i herio barn pob ysgol am ei safonau a'i gallu i wella, a gwneud penderfyniadau gwybodus am anghenion cymorth yr ysgol.

Mae'r broses gategoreiddio yn gynyddol drylwyr a theg, ac mae'n nodi'n glir yr agweddau hynny y mae angen eu gwella. Mae'r broses yn caniatáu deialog fwy agored rhwng ysgolion a'r consortiwm ac, yn gyffredinol, mae gan ysgolion ddealltwriaeth gadarn o beth i'w ddisgwyl. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, bu gostyngiad yng nghyfran yr ysgolion sydd angen mwy o gymorth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae pryderon sylweddol o hyd.

Mae adroddiadau'r rhan fwyaf o ymgynghorwyr her ar ysgolion wedi eu seilio'n briodol ar dystiolaeth uniongyrchol, fel craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau o addysgu. Mae gan y consortiwm brosesau addas i sicrhau ansawdd gwaith ymgynghorwyr her. Mae ymgynghorwyr her uwch yn cynnal ymweliadau ar y cyd ag ymgynghorwyr her ac yn adolygu ansawdd adroddiadau i ysgolion. Mae'r gweithgareddau hyn wedi gwella cysondeb ac eglurder yr adroddiadau a ddarperir i ysgolion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw nodiadau o ymweliadau ymgynghorwyr her i ysgolion yn canolbwyntio ar yr agweddau pwysicaf y mae angen eu gwella, fel ansawdd a chysondeb yr addysgu. Yn ychwanegol, mewn rhai achosion, nid yw adroddiadau a roddir i Estyn cyn arolygiad yn adlewyrchu canfyddiadau'r tîm arolygu yn ddigon da, yn enwedig o ran arfarnu addysgu ac arweinyddiaeth.

Mewn llawer o ysgolion, mae ymgynghorwyr her yn trefnu cymorth yn briodol ac yn gwneud defnydd da o ddarpariaeth y consortiwm ar gyfer ystod eang o gymorth o ysgol i ysgol ac ymyriadau targedig.

Mae'r consortiwm yn gweithio'n effeithiol â'i bartneriaid awdurdod lleol i rannu gwybodaeth am berfformiad ysgolion ar draws y rhanbarth, a nodi ysgolion sy'n destun pryder. Caiff cyfarfodydd i adolygu cynnydd ysgolion yn y categorïau cymorth uchaf eu cynnal yn rheolaidd, ac maent yn rhoi pwyslais priodol ar rôl y penaethiaid a'r llywodraethwyr i ddarparu tystiolaeth o gynnydd. Pan fydd pryderon am gynnydd ysgol, mae'r consortiwm yn gweithredu'n gyflym i rybuddio'r awdurdod lleol ac mae'n rhoi cyngor amserol i gefnogi defnydd yr awdurdod lleol o bwerau statudol i ymyrryd yn yr ysgol.

Mae asesiadau athrawon ar draws y rhanbarth yn gynyddol gywir. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn ymgysylltu'n dda ac mae prosesau safoni wedi gwella, wedi'i gynorthwyo gan ymglymiad yn y rhaglen wirio genedlaethol. Mae ymgynghorwyr her a strategol yn cynorthwyo pob digwyddiad safoni. Mae'r consortiwm wedi bod yn rhagweithiol o ran cynnwys y Cyfnod Sylfaen yn eu prosesau gwirio, ac mae hyn yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer ymarferwyr.

I fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, mae'r consortiwm wedi datblygu rôl ymgynghorwyr strategol, sy'n arwain dulliau i gynorthwyo ysgolion mewn meysydd allweddol. Mae hyn yn cynnwys grŵp strategaeth rhanbarthol i fynd i'r afael â thlodi ac anfantais sy'n gweithio gyda grŵp o ysgolion i nodi, arfarnu a datblygu arfer effeithiol ar draws y rhanbarth. Mae'r gwaith hwn wedi'i gynllunio'n dda, ac mae wedi cynnwys ymchwil wedi'i gomisiynu a arweiniodd at gyfres o astudiaethau achos arfer orau ar wella deilliannau ar gyfer disgyblion dan anfantais. Mae hyn wedi helpu i godi ymwybyddiaeth ysgolion am strategaethau i fynd i'r afael ag anfantais.

'Her Canolbarth De Cymru' yw strategaeth allweddol y consortiwm ar gyfer gwella ysgolion. Mae'n darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer ysgolion ar draws y rhanbarth, ar bob lefel o gymorth, sy'n adlewyrchu'r weledigaeth ar gyfer system ysgol hunanwella yn dda. Mae'r strategaeth yn cynnwys pedwar prif weithgaredd; Grwpiau Gwella Ysgolion (GGYau), 'Cynlluniau Braenaru', 'Canolfannau' ac 'Ymholi cymheiriaid,' sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio dull cydlynus a chynlluniedig o weithio o ysgol i ysgol.

Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn perthyn i GGY, ac mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cymryd rhan yn gadarnhaol iawn yn y gweithgaredd hwn. Mae'r GGYau yn darparu cyfleoedd strwythuredig i ysgolion weithio gyda'i gilydd ar flaenoriaethau gwella sy'n benodol i'w cyd-destun, ac i rannu arfer orau. Mae ymgysylltu â'r gwaith hwn wedi hyrwyddo gweithio cynhyrchiol o ysgol i ysgol ar draws y rhanbarth.

Pan fydd angen gweithio mwy targedig o ysgol i ysgol, mae'r consortiwm wedi paru nifer o ysgolion mewn partneriaethau 'Cynlluniau Braenaru', a thrwy hyn, mae ysgolion effeithiol yn cynorthwyo'r ysgolion hynny y mae angen eu gwella. Mae'r strategaeth hon wedi ysgogi gwelliannau mewn llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

Mae ysgolion sy'n 'ganolfannau' yn darparu dysgu proffesiynol mewn meysydd blaenoriaeth penodol, fel addysgu ac arweinyddiaeth. Ceir proses drylwyr i ysgolion wneud cais i fod yn ganolfannau i sicrhau bod gan yr ysgol arweiniol y gallu i ddarparu cymorth. Mae hon yn broses fuddiol i'r ddwy ochr, sef yr ysgolion arweiniol

a'r rheiny sy'n mynychu'r rhaglenni. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y gwaith hwn.

Mae'r consortiwm wedi ymgymryd â pheilot gyda dwy garfan o benaethiaid yn ymwneud â 'ymholi cymheiriaid' yn y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys dau bennaeth a dirprwy bennaeth yn ymweld â thrydedd ysgol i adolygu gwaith hunan arfarnu a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r ymweliadau yn cynnwys arsylwi gwersi, siarad â dysgwyr ac aelodau'r tîm arwain. Mae'r fethodoleg yn ymwneud ag adeiladau cynhwysedd arweinyddiaeth ac adlewyrchu a gwella hunan arfarnu rhwng cymheiriaid. Mae'r consortiwm wedi datblygu methodoleg glir ar gyfer y gwaith hwn ac mae arwyddion cynnar ei fod yn cael effaith cadarnhaol ar wella cynhwysedd yr arweinyddiaeth yn yr ysgolion tan sylw. Fodd bynnag, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer mesur effaith y gwaith wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae'r cyfleoedd cymorth hyn wedi cymell athrawon ar draws y rhanbarth i fod yn fwy gweithredol a myfyriol ynglŷn â'u dysgu eu hunain, a chefnogi datblygiad pobl eraill. Hwn yw'r dull 'ymholi cymheiriaid'. Er bod cyfranogiad wedi bod yn uchel, ac mae athrawon wedi croesawu'r cyfleoedd hyn ar gyfer gwella, nid yw'r gweithdrefnau ar gyfer monitro ac arfarnu effaith y gwaith hwn ar safonau, addysgu ac arweinyddiaeth wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae'r consortiwm yn dechrau mynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Ceir ystod eang o ddarpariaeth i wella llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion, gan gynnwys cymorth craidd ar gyfer datblygiadau'r cwricwlwm. Mae hefyd yn mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion, ac yn darparu dulliau gwerthfawr i ddatblygu cymorth o ysgol i ysgol i fynd i'r afael ag anghenion penodol ysgolion unigol. Mae gwelliant mewn Saesneg wedi bod yn dda ar y cyfan, ond mae'r effaith ar safonau disgyblion mewn mathemateg wedi bod yn fwy cyfyngedig, ac mae ysgolion yn dibynnu'n ormodol ar ymyriadau mewn llythrennedd a rhifedd ar y cyfan, yn hytrach nag ar ddatblygu addysgu ac arweinyddiaeth yn y meysydd hyn.

Yn dilyn adolygiad helaeth o ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen, sefydlodd y consortiwm Gynghrair y Cyfnod Sylfaen, sef grŵp o ysgolion a lleoliadau arbenigol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgolion wedi ymrwymo i gyflwyno digwyddiadau dysgu proffesiynol i rannu eu harfer dda. Mae astudiaethau achos yn dangos enghreifftiau o arfer well. Fodd bynnag, megis dechrau cael ei ddatblygu y mae'r gwaith hwn.

Mae'r consortiwm yn datblygu cyfres gynhwysfawr o raglenni i wella arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys ystod eang o raglenni ar gyfer penaethiaid ar adegau amrywiol o'u gyrfaoedd i wella eu harfer, i ennill y medrau i gynorthwyo penaethiaid eraill, neu arwain mwy nag un ysgol. Mae arweinwyr ysgol yn dangos ymrwymiad cryf i ddatblygu system hunanwella wedi'i harwain gan ysgolion, ac mae nifer fawr wedi dilyn rhaglenni arweinyddiaeth. Mae grŵp strategaeth penaethiaid Her Canolbarth De Cymru yn darparu fforwm defnyddiol i arweinwyr ysgol drafod a datblygu'r system gweithio o ysgol i ysgol. Hefyd, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau arwain trwy Her Canolbarth De Cymru, trwy arwain gwelliannau ysgol yn y GGYau ac mewn ysgolion sy'n 'Ganolfannau'. Mae'r cyfleoedd datblygu hyn yn dechrau meithrin gallu ar gyfer

gwella ar draws y rhanbarth, er ei bod yn rhy gynnar i nodi unrhyw effaith gynaledig ar ysgolion.

Mae recriwtio swyddog arweiniol rhanbarthol ar gyfer hyfforddi llywodraethwyr wedi gwella gallu'r consortiwm i weithio gydag awdurdodau lleol i roi cymorth i lywodraethwyr.

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn y consortiwm yn gryf.

Mae gan uwch arweinwyr yn y pum awdurdod lleol a'r uwch dîm reoli yn y consortiwm weledigaeth strategol glir ar y cyd ar gyfer y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol. Mae'r aelodau a'r swyddogion etholedig hyn wedi gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddatblygu'r weledigaeth strategol hon a rhoi'r strwythur llywodraethu priodol ar waith i yrru hyn yn ei flaen.

Mae strwythur llywodraethu'r consortiwm wedi'i amlinellu'n glir yn y cytundeb cyfreithiol a ddiwygiwyd yn ddiweddar, sy'n rhoi ystyriaeth dda i arweiniad Llywodraeth Cymru ar roi'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gwella Ysgolion ar waith. Mae'r cytundeb hwn yn cadarnhau mai gwasanaeth gwella ysgolion a ddarperir ar y cyd yw'r consortiwm a'i fod yn sefydlu fframwaith effeithiol sy'n dyrannu cyfrifoldebau llywodraethu ac atebolrwydd i gydbwyllgor, bwrdd cynghori, grwpiau rheoli strategol a gweithredol ac awdurdod lletyol.

Mae'r cytundeb hwn yn rhoi cyfarwyddyd ar gyfer cael cynrychiolaeth briodol o bob awdurdod lleol ar lefelau cyfarwyddwr arweiniol, prif weithredwr, ac aelod arweiniol. Cynrychiolir pob awdurdod lleol, ac fe gaiff cyfrifoldebau eu dosbarthu rhwng y pum awdurdod lleol gyda swyddi allweddol yn cylchdroi'n gyfnodol. Mae pob un o'r pum awdurdod lleol yn ymgysylltu â'r strwythur llywodraethu'n dda, ac maent wedi ymgymryd â'u swyddi a'u dyletswyddau cynrychioliadol penodedig.

Mae'r cydbwyllgor a'r bwrdd cynghori'n rhoi cyfarwyddyd clir i reolwr gyfarwyddwr ac uwch dîm rheoli'r consortiwm. Mae'r grwpiau hyn yn darparu ffordd i uwch arweinwyr yr awdurdodau lleol allu arfer eu goruchwyliaeth o waith y consortiwm. Mae swyddogion y consortiwm ac aelodau'r ddau grŵp hyn yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau priodol, ac maent yn cyflawni'r rhain yn dda ar y cyfan. Caiff rheolwr gyfarwyddwr ac uwch dîm rheoli'r consortiwm eu cefnogi'n dda gan grwpiau eraill o randdeiliaid hefyd, fel grŵp strategol y cyfarwyddwyr addysg, grŵp llywio'r penaethiaid, a grŵp llywio'r llywodraethwyr.

Mae gan y consortiwm weledigaeth glir ac eglur ar gyfer eu model ysgolion hunanwella. Mae'r weledigaeth wedi cael ei chyfleu'n effeithiol trwy adroddiadau, cylchlythyrau, briffiau rheolaidd a'i wefan, ac mae hyn wedi arwain at lefel uchel o 'gytundeb' gan bob un o'r rhanddeiliaid. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r llywodraethwyr ysgol a'r aelodau etholedig yn deall rôl y consortiwm yn ddigon da o ran codi safonau disgyblion a'r deilliannau y mae wedi eu cyflawni hyd yn hyn. Mae'r consortiwm yn ymwybodol o hyn ac mae wrthi'n amlinellu'n fanylach sut bydd y weledigaeth hon yn datblygu dros y tymor canolig, yn unol â disgwyliadau cenedlaethol.

Yn ogystal â gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddatblygu gwaith y consortiwm fel gwasanaeth gwella ysgolion ar y cyd, mae prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg y pum awdurdod lleol yn rhannu meysydd eraill o ddiddordeb cyffredin yn gynyddol. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn cymorth i lywodraethwyr, gwasanaethau adnoddau dynol, a dadansoddi data. Mae prif weithredwyr y pum awdurdod lleol wedi comisiynu ymarfer cwmpasu defnyddiol yn ddiweddar hefyd i nodi gwasanaethau addysg eraill lle gallai cydweithio gynnig gwerth ychwanegol.

Mae cynllun busnes presennol y consortiwm yn amlinellu'r nodau strategol ar gyfer y consortiwm yn dda o fewn gweledigaeth tair blynedd, yn ogystal â'i nodau lefel uchel ar gyfer y flwyddyn bresennol. Mae'r rhain yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau gwella ysgolion Llywodraeth Cymru a'r rheiny ar gyfer y rhanbarth.

Mae'r consortiwm wedi gweithio'n dda gyda phwyllgorau craffu'r awdurdod lleol i wella effaith eu goruchwyliaeth a'u her. Erbyn hyn, mae cylch cytûn o ymweliadau gan y rheolwr gyfarwyddwr a chadeirydd cydbwyllgor i bob pwyllgor craffu ar waith. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r consortiwm yn cyflwyno adroddiad yn amlinellu'n glir ei arfarniad o'r deilliannau o waith y consortiwm ar gyfer ysgolion a disgyblion yr awdurdod lleol. Mae'r consortiwm wedi gweithio'n effeithiol â phob pwyllgor craffu hefyd i ddarparu data a gwybodaeth gysylltiedig, yn ogystal â hyfforddiant, er mwyn helpu'r pwyllgor i ddwyn ysgolion a swyddogion i gyfrif am berfformiad. Fodd bynnag, mae cadeiryddion craffu yn parhau i fod yn aneglur ynghylch pa agweddau ar waith y consortiwm y gallant ac na allant graffu arnynt yn fwy uniongyrchol.

**Gwella ansawdd: Da**

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r consortiwm wedi datblygu i fod yn sefydliad myfyriol sydd wedi ymrwymo i arfarnu a gwella'i arfer a'i berfformiad ei hun. Mae uwch arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau ystod eang o randdeiliaid ac yn addasu cynlluniau a phrosesau pan fydd angen i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni'n fwy effeithiol. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i sicrhau trefniadau hunanarfarnu cynyddol gywir a gwelliannau i'r prosesau cynllunio busnes presennol.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio ystod eang o wybodaeth uniongyrchol yn dda i lywio'r broses hunanarfarnu. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data gan y consortiwm yn ofalus i lefel disgyblion unigol. O ganlyniad, mae'r consortiwm wedi cytuno ar set o ddangosyddion perfformiad allweddol priodol i fesur cynnydd yn eu herbyn dros gylch tair blynedd.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu presennol yn rhoi golwg teg a chytbwys o berfformiad cyffredinol y consortiwm. Mae ystod eang o randdeiliaid yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu, ac mae eu safbwyntiau'n helpu i lywio'r adroddiad terfynol. Ar ddiwedd pob cwestiwn allweddol, mae'r adroddiad yn darparu crynodeb arfarnol defnyddiol o'r meysydd y mae'r consortiwm yn nodi bod angen eu gwella.

Mae cynlluniau gweithredu gweithredol ar gyfer 2015-2016 yn adlewyrchu ffrydiau gwaith sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac maent yn cynnwys amlinelliad bras o gerrig milltir allweddol dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun busnes trosfwaol hefyd yn cynnwys atodiadau sy'n amlinellu'r modd y mae'r consortiwm yn teilwra'i

waith i gefnogi blaenoriaethau ychwanegol pob awdurdod lleol. Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar feysydd pwysig i'w gwella ac yn cynnwys graddfeydd amser a chostau, ond nid ydynt bob amser yn nodi'n glir unigolyn arweiniol i'w ddwyn i gyfrif am gynnydd. At ei gilydd, nid yw'r camau gweithredu yn y cynlluniau yn eglur ac nid ydynt yn cynnwys meini prawf llwyddiant penodol. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i uwch arweinwyr fesur cynnydd yn gywir.

Mae uwch arweinwyr yn monitro cynnydd yn rheolaidd yn erbyn y camau gweithredu a'r blaenoriaethau allweddol yn y cynlluniau gweithredol trwy system codau lliw, ond mae hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar broses yn hytrach na deilliannau. Mae trefniadau eraill i fonitro cynnydd cynlluniau gweithredol 2015-2016 yn aml yn rhy gymhleth ac maent yn aneglur ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei fesur.

Ar gyfer proses cynllunio busnes 2016-2017, mae arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth dda i'r argymhellion yn adroddiad Estyn, Mehefin 2015 sef 'Gwella Ysgolion trwy Gonsortia Rhanbarthol'. Mae'r cynllun busnes trosfwaol yn amlinellu targedau perfformiad clir ar gyfer ysgolion am y tair blynedd nesaf ym mhob cyfnod allweddol. Yn ychwanegol, ceir targedau manwl gywir i leihau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill ac i wella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r targedau hyn yn ategu'n effeithiol y tair prif flaenoriaeth i wella yn y cynllun busnes trosfwaol. Mae'r targedau'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, gan gynorthwyo ysgolion i fod yn ysgolion hunanwella a sicrhau bod y consortiwm yn perfformio'n dda. Mae'r blaenoriaethau gwella hyn yn ffurfio sylfaen gadarn ar gyfer cynlluniau gweithredu gweithredol 2016-2017.

Mae'r cynlluniau gweithredol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau allweddol cytûn y consortiwm a'r adroddiad hunanarfarnu. Maent yn cynnwys targedau perfformiad manwl gywir am gyfnod o dair blynedd. Mae pob gweithgarwch strategol yn cynnwys manylion am gamau gweithredu clir gyda meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser penodol ac arweinydd cyfrifol a enwyd. Ceir costau priodol i gefnogi rhoi camau gweithredu ar waith, ond gan fod cynllunio lefel cyllideb yn cael ei adeiladu ar fodel blwyddyn unigol sy'n dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru, mae'r costau hyn yn briodol am gyfnod o flwyddyn yn unig. Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd da yn sicrhau bod yr holl gynlluniau'n cynnwys y wybodaeth angenrheidiol mewn fformat cyson a'u bod yn bodloni safonau ansawdd. Mae'r cynlluniau hyn yn darparu sylfaen gadarn i symud gwaith ymlaen ar draws y consortiwm.

Ceir gweithdrefnau a phrosesau priodol i sicrhau bod y consortiwm yn nodi risgiau ar lefelau gwahanol, ac yn mynd i'r afael â nhw.

Mae'r consortiwm yn cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ar gyfer aelodau unigol o staff. Fodd bynnag, nid yw amcanion cytûn a meini prawf llwyddiant a nodwyd bob amser yn ddigon manwl gywir i alluogi uwch arweinwyr i farnu ansawdd gwaith eu timau'n gywir. Mae trefniadau priodol ar waith ar draws y consortiwm i fynd i'r afael â thanberfformio trwy brosesau anffurfiol a ffurfiol cytûn.

**Partneriaethau: Da**

Mae'r consortiwm wedi datblygu perthnasoedd cryf ag ystod o bartneriaid yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth ar y cyd o flaenoriaethau strategol, ac ymrwymiad clir i gydweithio i wella safonau ar gyfer pob disgybl.

Mae'r consortiwm wedi datblygu partneriaeth effeithiol â'i ysgolion. Mae hyn yn ei alluogi i symud yn bwrpasol tuag at gyflawni ei weledigaeth ar gyfer system o ysgolion hunanwella.

Ceir perthynas weithio gadarnhaol rhwng uwch reolwyr y consortiwm a'r awdurdod lleol. Mae cyfarwyddwyr, prif weithredwyr, uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn sylweddoli'r manteision y gellir eu hennill o weithio mewn rhanbarth ehangach, ac yn dangos parodrwydd clir i archwilio cyfleoedd eraill ar gyfer mwy o gydweithio â'r consortiwm ac â'i gilydd.

Mae'r consortiwm yn datblygu ei bartneriaeth â llywodraethwyr trwy ddatblygu grŵp llywio llywodraethwyr, briffiau i lywodraethwyr a hyfforddiant data gorfodol. Mae hyn yn helpu llywodraethwyr i ennill dealltwriaeth well o'u rôl. Mae'r consortiwm wedi dechrau cynnwys llywodraethwyr profiadol mewn cymorth o ysgol i ysgol trwy benodi llywodraethwyr ymgynghorol.

Mae'r consortiwm yn datblygu ei bartneriaeth yn briodol gydag ystod o wasanaethau awdurdodau lleol. Mae gweithio'n agos ag adrannau adnoddau dynol (AD) ac undebau llafur ar draws y pum awdurdod wedi arwain at ddatblygu gallu a threfniadau rheoli perfformiad ar y cyd, ac mae hyn yn gwella'r cymorth a gaiff ysgolion.

Mae penodi cydlynwyr rhanbarthol ar gyfer AD, llywodraethu, presenoldeb a phlant sy'n cael gofal yn hwyluso cydweithio cynyddol a rhannu arfer dda rhwng y pum awdurdod. Fodd bynnag, at ei gilydd, megis dechrau y mae'r datblygiad hwn.

Mae'r consortiwm wedi cydnabod yn briodol yr angen i ddatblygu gweithio agosach rhwng ymgynghorwyr her a staff cynhwysiant i rannu gwybodaeth am grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed. Ar draws y rhanbarth, ceir enghreifftiau o gydweithio defnyddiol rhwng y gwasanaethau hyn o ran cyfarfodydd ac ymweliadau ar y cyd ag ysgolion. Mae grŵp strategaeth cynhwysiant a ffurfiwyd yn ddiweddar yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i reolwyr yn y pum awdurdod ddatblygu cydweithio a chysondeb gwell ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'n ddyddiau cynnar o ran datblygu coladu a dadansoddi data am ddisgyblion sy'n agored i niwed.

Mae partneriaeth â'r awdurdodau esgobaethol wedi gwella, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng cyfarwyddiaethau addysg yr esgobaeth a rheolwyr y consortiwm. Mae hyn wedi arwain at ddeialog well ag uwch swyddogion am faterion yn ymwneud ag ysgolion eglwysig.

Cafwyd gwelliant mewn cyfathrebu ac yn y perthnasoedd gweithio rhwng ymgynghorwyr her y consortiwm ac ymgynghorwyr Her Ysgolion Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhannu data ac adroddiadau'n fwy effeithiol, yn ogystal â phresenoldeb rheolaidd mewn cyfarfodydd.

Mae'r consortiwm wedi datblygu rhai cysylltiadau defnyddiol gyda phartneriaid allanol. Er enghraifft, mae cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch wedi galluogi'r consortiwm i ddatblygu ystod o gyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer penaethiaid newydd a phrofiadol.

Mae cydweithio â'r consortia eraill wedi cynnig cyfleoedd defnyddiol ar gyfer rhannu arfer, fel y gwaith yn ymwneud ag addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg a'r gwaith datblygol ar brosiect y Cymoedd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y gwaith hwn.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y consortiwm brosesau rheoli ariannol cadarn ar waith, sy'n golygu y gall cyllidebau ar gyfer cyllid craidd a gwariant grant gael eu gosod a'u monitro'n ofalus. Caiff costau eu hadolygu'n rheolaidd ac yn fanwl gan staff y consortiwm, cyfarwyddwyr addysg a'r cydbwyllgor. Mae'r consortiwm yn rheoli heriau dyrannu grantiau'n dda. Caiff hyn ei helpu gan berthnasoedd cadarn rhwng swyddogion cyllid yn y consortiwm a'r awdurdodau lleol.

Mae'r cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau gwariant yn datblygu'n dda. Mae'r consortiwm yn gwneud defnydd da o ddata i ddyrannu adnoddau yn erbyn blaenoriaethau allweddol. Fel rhan o'i flaenoriaeth ynglŷn â chymorth wedi'i arwain gan ysgolion, cynyddodd y consortiwm gyfran y cyllid grant a roddir i ysgolion o 2015-2016 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r gyfran hon yn uwch na gofynion Llywodraeth Cymru.

Mae cyllid craidd yr awdurdodau lleol i'r consortiwm yn is na'r hyn a amlinellir ym Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, er bod hyn yn rhannol oherwydd bod awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau penodol fel cymorth AD. Mae'r consortiwm wedi bod yn rhagweithiol o ran nodi enghreifftiau o effeithlonrwydd trwy leihau costau gweinyddu a dyblygu gwaith a chynyddu incwm allanol o ddefnyddio ei ofod swyddfa. Mae hyn wedi galluogi'r consortiwm i leihau cyllid craidd yr awdurdod lleol 5% ar gyfer 2016-2017 a 5% arall ar gyfer 2017-2018 heb effeithio ar wasanaethau craidd. Mae cynlluniau ar waith i adolygu meysydd eraill ar gyfer cydweithio ar draws y rhanbarth, fel cymorth i lywodraethwyr, ymhellach i leihau costau a gwella effeithlonrwydd y gwasanaethau.

Mae'r consortiwm wedi dechrau asesu ei werth am arian, er ei fod yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd i ddatblygu'r broses hon a dangos bod defnyddio adnoddau'n cael yr effaith orau posibl ar ddeilliannau. Mae'r consortiwm wedi defnyddio canlyniadau ei adolygiadau gwerth am arian i ail-ffurfweddu gwasanaethau penodol fel cymorth yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad mewn costau yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y newidiadau hyn i bennu a ydynt wedi cyflawni gwerth gwell am arian.

# Atodiad 1

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Sarah Lewis | Arolygydd Tîm |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Rhona Edwards | Arolygydd Tîm |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| Gerard Kerslake | Arolygydd Tîm |
| Jassa Scott | Arolygydd Tîm |
| Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |
| Sophie Knott | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Sue Walker | Enwebai |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

### Y Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r dysgwyr mwy abl gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn un deg pedwar oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r dysgwyr mwy abl gyrraedd lefel 6 neu lefel 7.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn ymwneud â pherfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- Llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- Datblygiad mathemategol
- Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnodau allweddol 2,3 a 4 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr ennill y lefel ddisgwyliedig o leiaf naill ai mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith, ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth i ennill y dangosydd pwnc craidd.

### Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu yn y sector ôl-16

**Y dangosydd pwnc craidd** – fel yr uchod.

**Cymhwyster lefel 1** – cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd D i G.

**Trothwy lefel 1** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU ar raddau D i G.

**Cymhwyster lefel 2** – cyfwerth â chymhwyster TGAU, gradd A* i C.

**Trothwy lefel 2** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â phum cymhwyster TGAU, gradd A* i C.

**Trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Saesneg neu Gymraeg mamiaith ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster lefel 3** – cyfwerth â chymhwyster Safon Uwch, gradd A* i C.

**Trothwy lefel 3** – rhaid bod dysgwyr wedi ennill llawer o gymwysterau sydd gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch, gradd A* i E.

Mae’r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru ar yr oedran perthnasol – er enghraifft, yn 16 neu’n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm y pwyntiau a enillir gan bob dysgwr yn y garfan ei rannu â nifer y dysgwyr.

Mae’r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi’i chapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o’r holl gymwysterau a gymeradwywyd i’w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gallai ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â’u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad ag ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy’n byw yn y 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, mae ganddynt anghenion addysgol arbennig, maent yn y categori gweithredu gan yr ysgol a mwy neu ar ddatganiad ac yn llai na chymwys o ran eu caffaeliad o Saesneg fel iaith ychwanegol.